**Marion Eames** yn clorianni cyfraniad

# DAFYDD LLOYD Tad Cyfraith Unol Daleithiau America

**Rhan II**


Dechreuodd helbulon y Cymry o ddifri yn 1687. Roedd un o swyddogion Penn, Charles Ashcombe, wedi trefnu gwerthu 4,000 erw i gwmni o Saeson – tiroedd breision o goed a cherrig ac afonydd mawr. Ar unwaith anfonodd y Cymry ddirprwyaeth at y Comisiwn gwladol i brotestio, ac, yn wir, wedi gwrando, rhoddodd y Comisiwn ddyfarniad o blaid y Cymry.

Ym mis Mai o'r un flwyddyn dechreuodd y brenin drafodion *quo warranto* yn erbyn siarter Penn. Mewn tipyn o bryder cyhoeddodd Penn bamffledyn yn atgoffa'r trefedigaethwyr o'u teyrngarwch i'r brenin. Ymddiswyddodd Thomas Lloyd o fod yn Ddirprwy Lywodraethwr. Mae'n rhaid fod Penn wedi synhwyro'r newid ym meddwl ei was, David Lloyd, oherwydd y flwyddyn ddilynol fe anfonodd ŵr o'r enw John Blackwell i fod yn Llywodraethwr y Dalaith. Piwritan o'r hen ysgol oedd hwn, nid Crynwr, gŵr a wnaeth ei orau glas i sennu'r trefedigaethwyr, yn enwedig y Cymry. Mae yna awgrym i Penn syrthio i grafangau gwraig John Blackwell, a hwyrach mai dyna'r rheswm dros y penodiad anghydnaws. Mewn dim o amser roedd y ddau Lloyd yn benben â'r Blackwell hwn.

Roedd Comisiynwyr y Dalaith wedi penderfynu rhedeg ffin newydd rhwng Philadelphia â Chester County gan wahanu Radnor a Haverford oddi wrth Merion, gyda'r canlyniad fod y Cymry a fu'n talu eu trethi i Philadelphia yn sydyn yn gorfod gwneud hynny eilwaith i Chester. Yn naturiol roedd hyn hefyd yn drysu eu hunanlywodraeth. Mwy na hynny roedd Penn wedi dechrau codi prydles ar yr erwau a brynwyd gan y Cymry, yn groes i'w addewidion cyntaf. Doedd ganddyn nhw ddim hawl bellach i redeg eu melinau na'u ffeiriau eu hunain. Dynion cyflogedig Penn yn unig oedd yn cael gwneud hyn.

Roedd hyn, wrth gwrs, yn effeithio ar David Lloyd ei hun, gan ei fod yn dirfeddiannwr yn Swydd Chester erbyn hyn. Ar unwaith fe aeth â'r mater i gyfraith. Ac ennill. Mae'n rhaid ei fod yn ddadleuwr penigamp. Rhoddwyd iawndal i'r trefedigaethwyr am y trethi a dalwyd ganddynt eisoes.

Ond mater mwy cymhleth oedd cwestiwn arfogaeth filwrol. Hyd yn hyn roedd trigolion Pennsylfania, yn unol â'u daliadau heddychol, wedi llwyddo yn eu gwrthwynebiad i baratoi arfogaeth yn erbyn y posibilrwydd o ymosodiad gan y Ffrancwyr cyfagos. Hefyd roedd eu perthynas â'r Indiaid yn un dda iawn, felly doedden nhw ddim yn gweld achos ofni ymosodiad o unrhyw fath. Ond, wrth i gyn-filwyr gael eu




*Hanes Y Cymry Cynnar ym Mhennsylfania*

penodi'n benaethiaid arnyn nhw, roedd sefyllfa pasiffistaidd y dalaith yn fregus iawn.

Rhaid peidio â gweld gormod o fai ar Penn. Roedd y brenin yn mynnu cael ad-daliad ganddo, ei ddyledwyr yn pwyso'n drwm arno, a'r union ddyn roedd o wedi'i anfon drosodd i warchod ei fuddiannau wedi mynd drosodd at y gelyn. Erbyn hyn, wrth gwrs, roedd y Brenin William wedi esgyn i'r orsedd.

Rywbryd rhwng 1689 a 1692 roedd David Lloyd ei hun wedi troi'n Grynwr. Ers tro roedd ei lyfr nodiadau wedi dangos fod ganddo ddiddordeb mawr yn yr hyn a ddigwyddodd i'r Crynwyr yn Lloegr yn ystod 1685-6, pan lwyddodd Penn i gael pardwn gan Jâms i fil o Grynwyr. Mae'n siŵr fod hyn wedi ei atgoffa o ddioddefiadau'r Crynwyr ym Mhowys. Yn 1692 gwelwyd ei enw yng nghofnodion y Cwrdd Blynyddol fel aelod. O hynny ymlaen bu'n amddiffynnwr di-ildio i fuddiannau'r Crynwyr.

Yn 1693 penododd Penn filwr arall i fod yn Llywodraethwr Pennsylfania, sef y Cyrnol Benjamin Fletcher. Rhan o'i gomisiwn oedd gorfodi'r trefedigaethwyr i godi arian ar gyfer arfogi ac i gyflogi dynion i amcanion milwrol. Roedd Fletcher yn sarhaus iawn o ddaliadau pasiffistaidd y Crynwyr. Gwell ganddo oedd cwmni'r masnachwyr Anglicanaidd yn Efrog Newydd oedd yn eiddigeddus o lwyddiant masnachol y Crynwyr.

Pan fu farw Thomas Lloyd yn 1694, daeth David yn arweinydd gwleidyddol Crynwyr Pennsylfania. Ar unwaith fe'i hwynebwyd o'r newydd â'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng egwyddorion y Crynwyr a dymuniadau'r Llywodraethwr. Roedd Fletcher am weithredu dedfryd o farwolaeth am ddwyn eiddo. Yn naturiol, roedd y Crynwyr, ffyddlon i egwyddorion George Fox, yn wrthwynebus i'r fath beth.

Gwrthwynebiad arall oedd y disgwyl i farsiandïwyr a pherchnogion llongau dyngu llw o deyrngarwch i'r Goron. Dywedodd David Lloyd wrth syrfeiwr y tollau eu bod nhw'n deyrngar i'r Goron ond y byddai'n well gan y Crynwyr golli eu llongau na thyngu llw o unrhyw fath. Diddymu'r Assembli oedd atebiad Fletcher. Ond, dan arweiniad David Lloyd, ymadawodd yr aelodau i gyd, a gorymdeithio i le o'r enw *The Widow Whitbain's meeting place.* Yn fanno, wedi cymryd pleidlais, penderfynodd pawb ddiddymu'r Assembli eu hunain. Y diwedd fu i'r Goron roi'r gorau, er mai dim ond dros dro, i geisio rheoli Pennsylfania yn uniongyrchol. Yr hyn a wnaeth y Crynwyr Cymreig oedd sefydlu eu comisiwn eu hunain.

Erbyn 1694 roedd Penn wedi'i glirio o'r amheuon o fod yn annheyrngar i'r Goron, ac fe gafodd ei hawliau perchnogaeth yn ôl, eithr ar yr amod ei fod yn gofalu am ddiogelwch filwrol y dalaith. Unwaith eto roedd yna gymodi â David Lloyd ac fe gafodd hwnnw ei swydd yn ôl fel Twrnai Cyffredinol. Ond nid gwas bach Penn oedd Dafydd Lloyd. Ers tro bu'n anhapus ynghylch parhad y Ffrâm Lywodraeth a luniwyd gan y Perchennog dros ugain mlynedd ynghynt. Felly yn 1696 fe luniodd ei Ffrâm Lywodraeth ei hun, un newydd sbon. Wrth gwrs, roedd yna ansicrwydd ynglŷn â oedd hyn yn gyfreithlon ai peidio, gan nad oedd Penn ei hun wedi rhoi ei fendith arni. Yr hyn roedd David am ei weld yn anad dim oedd diwygio cyfraith perchnogaeth tir, gweld y syrfeiwyr llygredig yn cael eu cosbi, a chael gwarantu hawlio i ddatblygu a gwella ansawdd Philadelphia.

Does dim dyddiad pendant, ond mae'n debyg mai rhywbryd tua dechrau'r nawdegau y bu farw Sarah, gwraig David Lloyd, ychydig ar ôl genedigaeth eu plentyn, Tommy. Ar Fawrth 31, 1697, ac yntau yn 41 oed, fe briododd â Grace, merch 17 oed, oedd yn ferch i Grynwr cefnog, Joseph Growdon. Mae'n ymddangos mai un hapus dros ben oedd y briodas braidd yn anghymarus hon. Rhaid ychwanegu fod priodi i mewn i'r teulu hwn wedi gwella safle David Lloyd yn ddirfawr ac wedi cryfhau ei wrthwynebiad i'r Goron a'r Berchnogaeth.

Mae un stori drist am y plentyn, Tommy. Mae'n debyg fod David a Grace wedi mynd i ffwrdd dros dro gan adael y plentyn yng ngofal perthynas. Roedd y plentyn wedi'i gosbi am ryw anufudd-dod bach drwy ei gloi mewn cwpwrdd, ac anghofiodd y berthynas yn llwyr amdano. Pan aeth hi i agor y cwpwrdd ymhen hir a hwyr roedd y bachgen bach wedi marw o fraw.

Mae llawer mwy i'w ddweud am David Lloyd cyn iddo farw yn 1731. Ar un olwg gellid dweud ei fod yn ddyn caled, ac yn ddidostur tuag at y rhai, hyd yn oed at Grynwyr, oedd mewn dyled iddo. Ond y mae yna enghreifftiau eraill o'i garedigrwydd a'i ddynoliaeth. Yn sicr, wedi iddo roi ei deyrngarwch i'r Crynwyr, roedd ei barch i'w hegwyddorion yn ddisigl.

Ychydig iawn o sylw a gafodd y gŵr o Fanafon gan haneswyr Pennsylfania trefedigaethol yn yr 18fed ganrif a'r 19eg. Roedd hanesydd pwysicaf y cyfnod, sef Robert Proud, wedi'i fychanu gyda'r unig sylw: *'His political talents seem to have been rather to divide than unite.'*

Ond yn yr ugeinfed ganrif dechreuodd haneswyr America gydnabod ei arwyddocâd, gan ddweud fod ei waith fel lluniwr cyfreithiol yn ei wneud yn rhagflaenydd i Thomas Jefferson, ac Andrew Jackson. Yn sicr, meddai'r hanesydd Roy Lokken, roedd ei waith wedi rhoi arweiniad i'r hyn a gyflawnwyd yn nes ymlaen gan Jefferson, George Washington a John Adams.

Onid yw'n bryd i ni yng Nghymru ei fawrygu hefyd?

**CYWIRIAD**

Dymuna'r golygydd gywiro gwall a ymddangosodd yn rhifyn Gaeaf *Y Casglwr.* **Marion Eames** ac nid Manon Eames oedd awdur yr erthygl ar Dafydd Lloyd, tudalen 5. Ymddiheuriadau lu.